**<u>Rhybudd o Wneud</u>**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

## B5441 DROME ROAD A GREEN LANE WEST, GLANNAU DYFRDWY

## GWAHARDDIAD I AROS AR UNRHYW ADEG

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn ar 20 Rhagfyr 2022 drwy arfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Cyfyngiadau ‘Dim Aros ar Unrhyw Adeg’-:

   a. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr Green Lane West, Glannau Dyfrdwy.
   b. Ar gyffordd Green Lane West gyda’r B5441 Drome Road, Glannau Dyfrdwy
   c. Mewn lleoliadau amrywiol ar ddwy ochr y B5441 Drome Road, Glannau Dyfrdwy.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol ‘Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013’ yn parhau mewn grym.

Os ydych yn dymuno gweld copi o’r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a ddaw i rym ar 20 Ionawr 2023, cynlluniau’n dangos y ffyrdd a effeithir arnynt gan y Gorchymyn a datganiad o resymau’r cyngor dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Wepre Drive Cei Connah CH5 4HA. Fe fydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx neu fe allwch wneud cais am gopi o’r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Os ydych chi’n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad y Ddeddf neu unrhyw offeryn a wnaethpwyd dani o ran y Gorchymyn, fe allwch, o fewn chwe wythnos o ddyddiad y Gorchymyn, wneud cais i'r uchel Lys, i'r pwrpas hwn.

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint. CH7 6NR.
Dydd Gwener 23 Rhagfyr 2022